‘Newyddion Da i Bobl Ifainc?’

Adroddiad ynglŷn â chenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn Esgobaeth Tyddewi, yr Eglwys yng Nghymru.

Uned Ymchwil Church Army

Tachwedd 2021

Mae Church Army yn Gymdeithas Genhadu Anglicanaidd a Chymuned Genhadu sy’n gweithredu ledled Lloegr, yr Alban, Cymru ac ynys Iwerddon.

Elusen gofrestredig yn yr Alban SC040457. Canolfan Wilson Carlile, 50 Stryd Cavendish, Sheffield S3 7RZ

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn gan Uned Ymchwil Church Army yn nodi canlyniadau gwerthusiad a wnaed, o waith cenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn Esgobaeth Tyddewi. Fe'i comisiynwyd gan yr esgobaeth yn 2021 fel paratoad gogyfer â Blwyddyn Bod yn Ddisgybl 2022. Gosodwyd o'n Blaenau amcanion y bwrdd, sef asesu'r hyn sy'n digwydd eisoes, yn gyntaf oll ar raddfa Ardal Weinidogaeth Leol (AWL), nodi'r prif heriau, gan bwysleisio ambell arwydd gobaith, a chan gynnig awgrymiadau posib at y dyfodol.

Cynlluniwyd ein dull methodolegol o weithredu er mwyn darlunio'r sefyllfa gyfredol yn yr esgobaeth:

- Dadansoddi ystadegau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ac eglwysi, er mwyn asesu presenoldeb a nodweddion pobl ifainc ar hyd a lled yr esgobaeth.
- Cynnal arolwg o Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol (AddGLl), lle y gofynnwyd i gynrychiolydd o bob un ohonynt gwblhau gwerthusiad arlinell. Roedd hyn yn gyfle i ddarparu ystadegau a sawl barn am swyddogaeth pobl ifainc mewn eglwysi, a'r gwaith mewn perthynas ag ysgolion a chyrff eraill. Roedd unrhyw heriau arbennig hefyd o ddiddordeb i ni, yn ogystal ag ambell weledigaeth o ran datblygiadau'r dyfodol. Derbyniwyd ymateb i'r arolwg gan 16 o'r 24 AWL a holwyd[1].
- Cyfweld pobl a weinidogaethai mewn ardaloedd lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr yr AWL a fyddai'n cyflwyno gwybodaeth bellach, hefyd staff Plant Dewi[2] a Canolfannau Cenhadu Church Army ac Esgobaeth Tyddewi[3].
- Grŵp Ffocws a chyflwyniadau ysgrifenedig gan bobl ifainc. Ystyrir hyn yn un o'r ffynonellau pwysicaf, o ran casglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae clywed llais pobl ifainc yn allweddol bwysig, ac er nad oedd y rheiny a gyfrannodd, o angenrheidrwydd yn cynrychioli barn yr esgobaeth gyfan, eto i gyd mae eu cyfraniad yn dyngedfennol o ran yr adroddiad hwn.

Mae'n anochel fod cyfyngiadau amser a phrinder ymateb ar ran rhai pobl a holwyd wedi dylanwadu ar amrediad yr adroddiad. Fodd bynnag, er i ni fethu gwyntyllu rhai agweddau yn llawn, mae'r adroddiad yn ddadansoddiad defnyddiol o'r hyn sy'n digwydd o ran cenhadu a gweinidogaethu ymhlith pobl ifainc hwnt ac yma yn yr esgobaeth.

Rydym yn cydnabod bod elfen ddwyieithog gref i lawer o'r gwaith yn yr esgobaeth, a sicrhawyd fod cyfathrebiadau ac arolwg yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ni ellir, hyd yn hyn, asesu'n llawn effaith COVID-19 ar fywyd cymunedau a gwaith yr eglwys. Asesu'r sefyllfa cyn y cyfnodau clo a wnaethom, gan obeithio, wrth i gyfyngiadau godi'n raddol, y bydd modd i'r eglwys fwrw iddi i gynllunio gogyfer â chenhadu.

Ein gobaith a'n gweddi yw, y bydd i'r sawl sy'n darllen yr adroddiad hwn gytuno â'r hyn a fynegwyd gan un o'r cyfranwyr:

'Rwy'n angerddol dros rannu'r efengyl gyda phlant, pobl ifainc a theuluoedd, drwy ddiwallu eu hanghenion ymarferol, adeiladu perthynas â hwy, a manteisio ar gyfleoedd sy'n codi i'w cyflwyno i Iesu drwy gyfrwng geiriau, ac yna cyd-deithio â hwy megis disgyblion Crist.'

[1] Pan gynhaliwyd yr arolwg roedd yna 24 AWL yn yr esgobaeth; mae'n debyg fod yna 25 bellach.
[2] https://stdavids.churchinwales.org.uk/en/clergy-and-members/st-davids-diocesan-council-socialresponsibility/plant-dewi/
[3] www.churcharmy.org/com

Y sefyllfa gyfredol

'Estyniad' Tyddewi

Dengys y tabl isod amcangyfrif y niferoedd plant (dan 18 oed) sy'n gysylltiedig ag Esgobaeth Tyddewi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd (mae'r ffigyrau gogyfer â'r blynyddoedd diweddaraf oedd ar gael).

	Nifer plant
Mynychwyr eglwys E.yng Ngh ar Sul cyffredin (2018)[4]	762
Disgyblion mewn ysgol E.yng Ngh (2021)[5]	3834
Cefnogir gan Plant Dewi (2019/20)[6]	3054

Yn ddi-os, bydd yna rywfaint o orlapio rhwng y plant yn y tri grŵp hyn e.e. rhai disgyblion ysgol hefyd yn mynychu eglwys. Fodd bynnag, gellid rhagdybio fod gan Esgobaeth Tyddewi ar hyn o bryd 7650 o blant o fewn ei gafael, sef ychydig dros 10% o'r holl blant sy'n byw o fewn ffiniau'r esgobaeth[7].

O ddadansoddi'r cyfryw ddata, gwelir fod mwyafrif llethol y plant hyn o dan 12 oed (oed ysgol gynradd a llai). Mae'r nifer sydd o fewn gafael yr esgobaeth yn y grŵp oed hwn yn 7207[8], sef ychydig dros 15% o'r holl blant yn y grŵp oed hwn, sy'n byw o fewn ffiniau'r esgobaeth.

Y rheswm pam yr ystyriwyd y tair ffordd wahanol hyn o gysylltu ac ymwneud â phlant, pobl ifainc a theuluoedd ifainc, yn yr adroddiad hwn, yw'r canlynol: tra bo dull a modd gweithredu y tair ffordd yn wahanol o bosib, maent bob un yn rhan o Esgobaeth Tyddewi ac yn rhan o genhadaeth Duw. Tra bod mynychu'r eglwys ar y Sul yn cael ei ystyried yn gyfrwng traddodiadol ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth, gan gynnig cyfleoedd 'efengylyddol' amlycach o bosib, mae ysgolion yr E.yng Ngh a Plant Dewi yn arddangos gwerthoedd Cristionogol fyddai'n taro deuddeg o ran pobl sydd efallai yn dod wyneb yn wyneb â hwy am y tro cyntaf.

[4] Niferoedd yn mynychu eglwys – ffynhonnell yr Eglwys yn Nghymru
[5] Niferoedd gan https://mylocalschool.gov.wales/ gwelwyd 20/10/2021
[6] Adroddiad Blynyddol Plant Dewi 2019/20
[7] Ardal yr Esgobaeth: mwy neu lai yr un peth ag Awdurdodau Unedol Siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro (ffigyrau poblogaeth gan: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland gwelwyd ar 15/10/2021)

[8] Cymerwyd yn ganiatäol fod y plant a gefnogir gan Plant Dewi o dan 12 oed (nid oedd modd gwirio hyn)

Eglwys Sul

Yn 2018[9] roedd 762 o blant dan 18 oed mewn eglwys yn Esgobaeth Tyddewi ar Sul cyffredin (337 dan 7 oed, 218 o 7-10 oed, a 207 o 11-17 oed).



Siart 1

Fel y dengys Siart 1, gwelwyd y nifer plant a fynychai eglwys ar y Sul yn yr esgobaeth, yn gostwng gyda threigl y blynyddoedd, ond roedd hyn, i raddau helaeth, yn unol â'r gostyngiad yn nifer mynychwyr hŷn.

O ystyried cyfran y mynychwyr Sul sydd o dan 18 oed, gwelir fod hyn yn 13.9% yn 2018. Mewn cymhariaeth, o ran poblogaeth gyffredinol yr esgobaeth drwyddi draw, mae 19.1% o'r boblogaeth yn yr un flwyddyn yn blant dan 18 oed. Ystyr hyn yw fod plant yn llai presennol o dipyn mewn eglwysi'r E.yng Ngh nag y disgwylid, o ran y boblogaeth gyffredinol. Dylid nodi fodd bynnag, fod yna gryn amrywiaeth rhwng AddGLl (mae rhwng 5.1% a 34.7% o fynychwyr Sul dan 18 oed). Yn ôl yr hanes, mae ambell AWL o'r farn mai ychydig iawn yw nifer y plant sy'n rhan o boblogaeth gyffredinol eu hardal. Er hyn, dengys data[10] poblogaeth yr AddGLl fel a ganlyn: er gwaetha'r amrywiaeth o ran cyfrannau'r plant sy'n byw mewn gwahanol AddGLl, dyw hyn ddim i gyfrif am gyfrannau isel y plant sy'n mynychu eglwys ar y Sul yn yr Ardaloedd hynny. O ystyried yr AWL â'r gyfran leiaf o blant yn ei phoblogaeth gyffredinol, mae nifer y plant, ar yr un pryd, yn 14.4% o boblogaeth yr ardal.

Gofynnir i AddGLl gofnodi'r nifer teuluoedd sy'n rhan o'u heglwysi, ac yn 2018 roedd yna 395 teulu[11]. Dengys Siart 2 ostyngiad amlwg iawn yn nifer y teuluoedd a gofnodir yn flynyddol.

[9] Defnyddiwyd ffigyrau am 2018 gan mai dyna'r data diweddaraf mwyaf dibynadwy a oedd ar gael ar ein cyfer. Effeithiodd pandemig Covid 19 ar broses casglu data yn 2019, gan na chafwyd data gan sawl eglwys, ac o ganlyniad, ni ellir dibynnu ar ffigyrau'r flwyddyn honno.
[10] Dangosfwrdd AddGLl wedi ei greu gan Brendan Research. Gwelwyd drwy ganiatâd yr E.yng Ngh
[11] Diffinir teulu yn ôl mympwy eglwysi unigol ac AddGLl



Siart 2

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Mae yna 24 o ysgolion gwirfoddol yn yr esgobaeth, a'r rheiny yn ysgolion dan gymorth neu dan reolaeth, y mwyafrif yn ysgolion cynradd, ac un yn ysgol sy'n cwmpasu plant 3-16 oed (sy'n cynnwys plant oed ysgol uwchradd). Yn 2021 roedd 3834 disgybl yn mynychu'r ysgolion hyn, a thua 3600 ohonynt yn blant ysgol gynradd[12]. Felly gwelir fod 10.9% o ddisgyblion ysgol gynradd yr esgobaeth yn mynychu un o ysgolion yr E.yng Ngh[13].

Nid yw ysgolion yr E.yng Ngh wedi eu lleoli yn gyfartal ar hyd a lled AddGLl yr esgobaeth. Mae mwy na thrydedd ran yr AddGLl heb ysgol yr E.yng Ngh yn eu hardaloedd, er i bob AWL (a ymatebodd i'r arolwg) gydnabod eu bod yn ymwneud ag ysgol o ryw fath.



[12] Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys plant iau sy'n mynychu dosbarth(iadau) meithrin a welir mewn rhai ysgolion

[13] Daw'r ffigyrau o https://mylocalschool.gov.wales/ gwelwyd 20/10/2021

Soniodd mwy na dwy ran o dair o ysgolion E.yng Ngh eu bod yn cynnal gwasanaethau boreol yn rheolaidd dan arweiniad clerigiaid, a chafwyd fod gan ambell un ohonynt weithgareddau eglwysig eraill megis clwb cinio, clwb wedi ysgol a Llan Llanast.

Mae gan ysgolion E.yng Ngh, i bob golwg, yr un nodweddion ag ysgolion eraill yn yr esgobaeth, a hynny mewn sawl ffordd:

- Mae disgyblion ysgol gynradd mewn ysgolion E.yng Ngh yr un mor debygol o dderbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) â disgyblion ysgolion eraill (ysgolion E.yng Ngh 17.6% o ddisgyblion, ysgolion eraill 18.0% o ddisgyblion[14]).
- Mae yna rywfaint o amrywiad rhwng ysgolion E.yng Ngh ag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal esgobaethol, o ran eu maint, gydag ysgolion E.yng Ngh yn llai tebygol o fod yn fawr, ond does yna ddim arwyddocâd ystadegol i'r amrywiadau hyn.

Nifer disgyblion	Ysgolion E.yng Ngh	Ysgolion eraill
<85	8 (33%)	51 (31%)
85-219	11 (46%)	58 (36%)
≥220	5 (21%)	54 (33%)

Nodwedd pur wahanol rhwng ysgolion E.yng Ngh ag ysgolion eraill yw'r cyfrwng ieithyddol[15] a ddefnyddir yn yr ysgol.

Cyfrwng ieithyddol	Ysgolion E.yng Ngh	Ysgolion eraill
Cyfrwng Cymraeg	8 (33%)	96 (59%)
Cyfrwng dwyieithog	4 (17%)	22 (13%)
Cyfrwng Saesneg	12 (50%)	45 (28%)

Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrwng ieithyddol mewn ysgolion E.yng Ngh a'r ysgolion cynradd yn gyffredinol yn yr ardal esgobaethol, yn ystadegol arwyddocaol (p=0.0214). Golyga hyn nad yw'r cyfrwng ieithyddol mewn ysgolion E.yng Ngh yn nodweddiadol o'r ddarpariaeth ehangach yn y cylch. Mae ysgolion E.yng Ngh yn yr esgobaeth yn llawer tebycach o ddefnyddio cyfrwng Saesneg nag ysgolion eraill.

Plant Dewi

Mae gan Plant Dewi ganolfannau a phrosiectau mewn hanner AddGLl (12 o'r 24) yn yr esgobaeth.

Yn y flwyddyn 2019/20 cefnogent[16]:

Oedolion	2480 (o leiaf)
Plant	3054 (o leiaf)
Teuluoedd	2227

Yn nechrau 2021, roedd 27 canolfan neu brosiect Plant Dewi yn yr esgobaeth.Roedd ymwneud rhyngddynt ag eglwysi E.yng Ngh yn lleol, mae'n debyg, mewn sawl ffordd, megis clerigiaid yn ymddiriedolwyr neu yn mynychu grwpiau/gweithgareddau.

Noder na chafodd 30% o'r canolfannau/prosiectau hyn gefnogaeth nag unrhyw ymwneud gan eglwysi E.yng Ngh lleol.

[14] Ffigyrau PYDd o https://mylocalschool.gov.wales/ gwelwyd 20/10/2021

[15] Ffigyrau cyfrwng ieithyddol gan https://mylocalschool.gov.wales/ gwelwyd 20/10/2021

[16] Ffigyrau o adroddiad blynyddol Plant Dewi, hefyd data ar wahân a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn.

Arolwg AddGLl

Anfonwyd arolwg i holl AddGLl yr esgobaeth, yn holi cyfres o gwestiynau ynghylch cenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd, yn eu hardal. Ymatebodd dwy ran o dair yr AddGLl (16 o'r 24[17]), a'r rheiny wedi eu dosbarthu'n gyfartal ledled yr esgobaeth

Ni wyddys pam nad ymatebodd trydedd ran yr AddGLl oedd yn weddill, ond mae'n amlwg nad diffyg plant a phobl ifainc yn eu cymunedau oedd yr achos. Doedd nifer y plant a fynychai eglwys ar y Sul ddim yn factor yn yr ymateb/diffyg ymateb – yn wir ymddengys fod cyfartaledd y plant oedd yn mynychu, yn uwch na'r cyffredin yn rhai o'r AddGLl nad ymatebodd.

Diolch i'r AddGLl a ymatebodd i'r arolwg, p'un a oedd ganddynt rywfaint i'w ddweud ynglŷn â phlant, ieuenctid a theuluoedd ifainc, ai peidio. Rhaid cydnabod hefyd sefyllfa heriol rhai AddGLl, a diolch yn arbennig iddynt hwythau am eu hymateb parod. Dyma eiriau un ohonynt: '*Cwblheais yr arolwg. Teimlwn braidd yn ddigalon wrth wneud hynny. Hyderaf y bydd rhai o'r anhawsterau sydd yma yn hysbys i chwi.*'

Canfyddiadau'r arolwg -eglwys

Dengys Siart 3 fod mwy nag 80% o AddGLl wedi canfod fod ymwneud â phlant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn allweddol bwysig o ran cenhadaeth eu heglwysi.



Siart 3

Pan ofynnwyd y cwestiwn 'yn ddamcaniaethol, pa gyfran o gyllideb eich AWL ddylai, yn eich barn chwi, fynd tuag at weinidogaeth ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc?', roedd yr ymatebion o 5% i 62%. 30% oedd y cyfartaledd, a phob ymateb, bron, yn nodi fod y gyfran ddamcaniaethol hon yn bur wahanol i'r hyn a neilltuwyd ac a wariwyd yn yr AWL.

[17] Pan wnaed yr arolwg, roedd 24 AWL yn yr esgobaeth; mae'n debyg fod 25 yno bellach.

Ar wahân i wasanaethau'r Sul, mae AddGLl yn ymwneud â phlant, ieuenctid a theuluoedd ifainc mewn sawl ffordd. Mae gan drichwarter yr AddGLl wasanaeth pob oed neu deuluol, mae mwy na'u hanner ag Ysgol Sul, a phrin hanner ohonynt â gwedd newydd o eglwys (Llan Llanast fel arfer).

Math o gyswllt	**AddGLl**
Gwasanaeth pob oed/teuluol	75%
Ysgol Sul	56%
Gwedd newydd (yn cynnwys Llan Llanast)	44%
Grŵp babanod/plant bach	44%
Grŵp plant	38%
Grŵp ieuenctid	38%
Clwb gwyliau	31%
Ffeiriau eglwysig e.e. ffair haf	31%
Cymdeithasau arbennig	13%
Gwaith ieuenctid ar wahân	6%
Côr iau	6%
Urdd Gweinyddion	6%
Dim un o'r uchod	13%

Canfyddiadau'r arolwg - ysgolion

Gofynnwyd i AddGLl ynglŷn â'u hymwneud ag ysgolion, nid yn unig ysgolion E.yng Ngh ond pob math ohonynt.

Math o ysgol	**AddGLl**
Cynradd y wladwriaeth	94%
Cynradd E.yng Ngh	69%
Uwchradd y wladwriaeth	56%
Coleg addysg bellach	13%
Meithrin/Cyn-ysgol	13%
Arall – anghenion addysg arbennig	6%
Dim un o'r uchod	0%

Mae pob AWL a ymatebodd i'r arolwg yn ymwneud ag o leiaf un ysgol yn eu hardal.

Does yna ddim ysgol gynradd E.yng Ngh ymhob AWL, ond lle bo'r fath ysgol, maent oll (ond un) yn ymwneud â'u hysgolion E.yng Ngh (Mae yna un ysgol uwchradd E.yng Ngh yn yr esgobaeth; er hyn, nid ymatebodd yr AWL lle y'i lleolir, i'r arolwg, ac felly nis crybwyllir yn y tabl uchod).

Mae eglwysi'n ymwneud ag ysgolion mewn sawl ffordd, yn bennaf drwy arwain gwasanaethau boreol a gwahodd dosbarthiadau i ymweld ag eglwysi. Nododd mwy na hanner yr AddGLl eu bod yn ymwneud â llywodraethiant ysgol leol.

Math o ymwneud	**AddGLl**
Arwain gwasanaethau boreol	100%
Ymweliadau eglwys	94%
Aelodaeth llywodraethwyr	56%
Dysgu yn y dosbarth	31%
Clybiau wedi ysgol	31%
Clybiau cinio	13%
Caplaniaeth	6%
Undeb Cristionogol	0%
Dim un o'r uchod	0%

Canfyddiadau'r arolwg – Plant Dewi

Ymatebodd 16 AWL i'r arolwg, 8 yn nodi fod yna ganolfan/brosiect Plant Dewi yn eu hardal. Gwaetha'r modd, nododd un AWL nad oedd yna brosiect Plant Dewi yn eu hardal, pan OEDD yna'r fath brosiect yno; ni wyddys ai camgymeriad oedd hyn, neu efallai nad oedd yr AWL, yn wir, yn gwybod amdano. Dywed Plant Dewi nad oes gan y prosiect arbennig hwn unrhyw gysylltiad gydag eglwys E.yng Ngh leol.

Disgrifiodd pob AWL a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cefnogi Plant Dewi mewn rhyw ffordd, hyd yn oed lle nad oedd yna brosiect/ganolfan yn eu hardal. Ceir cyfraniadau i Blant Dewi gan bron pob un o'r AddGLl, naill ai'n rheolaidd neu drwy gasgliadau arbennig adeg y Nadolig neu adegau eraill.

Dull cefnogi	**AddGLl**
Cyfraniadau i Plant Dewi	94%
Posteri/gwybodaeth yn yr eglwys ynglŷn â Plant Dewi	50%
Addolwyr yn gwirfoddoli gyda Plant Dewi	31%
Grŵp/gweithgaredd Plant Dewi mewn eglwys	25%
Clerigiaid/addolwyr yn ymddiriedolwyr yn lleol	25%
Dim un o'r uchod	0%

Barn pobl ar lawr gwlad

Casglwyd barn pobl ifainc ac oedolion drwy drafodaethau, cyfweliadau, hefyd yr arolwg. Pobl ifainc yn eu harddegau cynnar oedd mwyafrif yr ieuenctid a ymatebodd i'r arolwg hwn. Cynhaliwyd grŵp ffocws i bobl ifainc dan nawdd yr esgobaeth, ac fe'i mynychwyd gan dri o'n hieuenctid, ond fel atodiad cafwyd gair o brofiad gan eraill a fethodd fod yn bresennol ar yr achlysur. Daeth ymateb ysgrifenedig hefyd gan unarddeg person ifanc yn cyfarfod mewn grwpiau dan nawdd clerigiaid lleol. Yn ogystal, cyfwelwyd unarddeg o bobl eraill, gan gynnwys rhai yn cynrychioli AddGLl (clerigiaid a gweithwyr plant) ac unigolion yn gweithio gyda Plant Dewi a Chanolfan Genhadu Church Army ac Esgobaeth Tyddewi. Isod, ceir crynodeb o brif bwyntiau'r cyfryw ymatebion.

Mae tyfu i fyny yn yr esgobaeth yn ddymunol i rai pobl ond nid i eraill

Gwelir fod y bobl ifainc yn gwerthfawrogi eu bod yn byw mewn rhan odidog o'r byd, golygfeydd eithriadol, a'r môr wrth law. Yn ychwanegol at hyn, mae yna gymuned leol gefnogol: '*Mae gen i ddigonedd o ffrindiau a mae yna ymdeimlad cymunedol cryf*', '*mae hwn yn lle gwirioneddol gyfeillgar*, '*mae yna doreth o bethau ymlaen*'. Mae i ardal dwristaidd ei manteision a'i hanfanteision. Roedd yna ymdeimlad mai da o beth oedd byw a bod mewn lle y dymuna amryw bobl ymweld ag ef, a bod hyn yn fanteisiol o ran cyflogi tymhorol, ond mae'r ffyrdd a chyfleusterau eraill yn medru bod yn brysur.

O ran mwyafrif y bobl ifainc, bu mynychu'r ysgol gynradd, ar y cyfan, yn brofiad cadarnhaol. Yn yr ysgolion bychain, mae yna ymdeimlad o bawb yn adnabod ei gilydd, a mae pobl ar y cyfan yn gefnogol: '*Fe gewch ail-gyfle gan bobl, am eu bod yn eich nabod*'. Soniodd eraill fod tuedd i fywydau pobl ifainc droi o gylch yr ysgol, yn enwedig y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell. Addysgir rhai pobl ifainc gartref, tuedd sydd ar gynnydd, o bosib.

Er hyn, teimlai rhai yn ynysig, a bod angen teithio os am fentro oddi cartref: '*rym ymhell o bobman*', rydym yn sownd '*ynghanol Cymru*', '*mae'n ddiflas weithiau*. Mae bod heb fodd teithio yn anfantais, yn sicr. Soniwyd am werth chwaraeon, a bod gemau yn torri ar adegau addoliad yn aml. Meddai un person '*mae'n gystadleuaeth rhyngom â chwaraeon y Sul*', gan ychwanegu fod yr eglwys leol yn weddol gyndyn o gynnal addoliad ar adegau eraill o'r wythnos.

Ar wahân i fyd amaeth neu fusnesau teuluol eraill, prin yw cyfleoedd gwaith. Gwir fod swyddi i bobl heb gymwysterau ffurfiol ar gael mewn rhai mannau – mewn archfarchnadoedd falle – ond ychydig iawn, o ran gobaith adeiladu gyrfa. Mae tai lleol yn ddrud, oherwydd fod y farchnad ail-gartrefi yn ffynnu mewn rhai mannau. Symud fydd tynged rhai pobl ifainc os am barhau â'u haddysg. O edrych ymlaen bum mlynedd, ni chredai mwyafrif y bobl ifainc a ymatebodd, y byddent yn dal yn eu hunfan: '*Fydda i ddim yma, siawns, gan fod yna brinder cyfleoedd*'.

Rhywbeth dros dro, o bosib, yw'r ysfa hon i ddianc, gan i rywrai sôn am ddychwelyd, a hwythau'n dymuno magu teulu neu brofi cefnogaeth cymuned leol. O safbwynt y bobl ifainc hyn, mae'r ardal yn ddelfrydol fel man i dreulio blynyddoedd y prifiant: '*Byddwn wrth fy modd petawn yn dal i fyw ma – mae'n lle hyfryd*'.

Ar yr un pryd, roedd yna ymdeimlad cryf eu bod yn ffodus ac nad oes gan bobl ifainc eraill yn y cylch yr un cyfleoedd a manteision â hwynt. Meddai un person ifanc: '*mae yna nifer o unigolion dan amodau anodd*'. Teimlwyd fod rhai o ieuenctid eraill y cylch yn hollol wahanol: '*dydyn ni ddim yn treulio amser yn yr union fannau hynny – does dim chwant cymysgu gyda rhai o'r bobl ifainc….dydyn nhw ddim yn rhannu'r un gwerthoedd neu'n un math o fywyd â ni*'. Cyfeiriwyd gan eraill at engreifftiau o amddifadedd enbyd, camddefnyddio cyffuriau ac anniddigrwydd ieuenctid yn gyffredinol. Meddai un: '*byddai'n well gan bobl ifainc fod yn rhywle arall*'. Ni ellir cenhadu a gweinigogaethu yn drwyadl ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc, ond wrth werthfawrogi cwestiynau'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal mewn cymunedau ar hyn o bryd.

Mae pobl ifainc am deimlo eu bod yn cyfrif mewn eglwys

Mae anogaeth unigol a phersonol, o ran pobl ifainc yn hollbwysig: '*mae rhywun o'r eglwys yn dweud wrthyf yn rheolaidd, diolch am fod yn berson ifanc yn yr eglwys', 'ambell wên, cwtsh, gair o anogaeth, canmoliaeth, ymroddiad llwyr – mae'r pethau hyn yn taro deuddeg, gwneud i ni deimlo'n sâff, fod croeso i ni'*. Mae ambell berson ifanc yn sylweddoli mai nhw yw'r unig un ifanc yn eu heglwys. Addoliad teuluol pob-oed, mae hyn yn bwysig, ond, er i'r arolwg ddangos fod sawl eglwys yn gwneud hyn, teimlwyd fod rhai oedolion yn cadw draw yn fwriadol am nad offeiriad sydd bob amser wrth y llyw, neu fod y fath wasanaeth yn wahanol i'r arfer.

Mae sicrhau ymdeimlad o berthyn yn hanfodol: '*mae pobl ifainc yn dyheu i gael perthyn, a does yna unman arall lle mae pobl yn fwy gweladwy ac adnabyddus a gwerthfawr, na Chorff Crist'*. Dymuna un eglwys greu'r naws hwn drwy brydau bwyd teuluol (yn yr eglwys) ar gyfer pobl o bob oed. Heb yr ymdeimlad hwn o berthyn, cilio a wna'r ymroddiad. Meddai un person ifanc yn yr arolwg, '*dyw marn i ddim yn cyfrif ta beth!'* Cwyn arall oedd, amharodrwydd yr eglwys leol i addasu a bod yna agwedd nawddoglyd ac arwynebol: '*mae rhai eglwysi'n anfodlon newid ac arbrofi â chyrddau newydd', 'mae'n nhw'n disgwyl i bobl ifainc doddi mewn i'w trefn nhw'*. Yn ddiddorol ddigon, yn ystod y cyfnodau clo diweddar, cydiodd rhai pobl ifainc mewn gwasanaethau arlinell gan eglwysi o bell, sy'n fwy deniadol.

Nodir fod cefnogaeth gan Gristionogion ifainc eraill yn bwysig, fel nad eir i deimlo'n ynysig. Gallai hyn gynnwys mynychu gwersylloedd Cristionogol neu ymuno â chyfarfod lleol, megis grŵp neu gymdeithas ieuenctid. Mae rhai plant ac ieuenctid yn yr esgobaeth yn ynysig, yn fwy felly, o bosib, os mai Cristionogion ydynt. Da o beth fod cysylltiadau arlinell yn ystod cyfnodau clo wedi llanw bwlch, o ran cefnogaeth a chymdeithas.

Mae estyn allan at ychwaneg o bobl ifainc yn golygu codi proffil yr eglwys leol. Yn ôl un person ifanc, '*run ni o'r neilltu, a neb yn gwybod amdanom',* tra bod un arall yn dymuno i'r eglwys leol '*fod yn rhan o fwrlwm y dre (carnifal) a'r ysgol (ffeiriau haf)*'. Beth am geisio denu pobl ifainc, oedd un awgrym brwd: '*byddai bwyd yn denu torf i'r eglwys*'. Beth wedyn am '*fiwsig cyfoes, does fawr o hwyl mewn emynau'? M*ae'r adeiladau'n ddiflas hefyd: '*pa berson ifanc hoffai fynd i gragen o le sy'n braenu, yn oer ac yn drewi o henaint?*'. Rhaid ceisio denu mwy o bobl ifainc, os am weld yr eglwys yn ffynnu: '*Mae prinder yr ieuenctid yn digalonni rhywun, rwy'n teimlo'n ddiflas tu hwnt*.'

Bydd mwyafrif yr eglwysi sydd heb wneud unrhyw waith ymhlith ieuenctid yn rhwym o fethu cyrraedd rhan dra phwysig o'u cymunedau lleol. O ran eglwysi llai, anodd, o bosib, yw canfod pobl all helpu â'r gwaith hwn, a theimlwyd fod diffyg gwirfoddolwyr cymwys, yn ddios, yn llesteirio cynnydd y gwaith. Beth bynnag, rhaid sylweddoli mai galwedigaeth yw gwaith ieuenctid, a bod rhaid wrth adnoddau digonol a phobl wedi eu hyfforddi'n addas, a phob cefnogaeth i'w hymdrechion. Yn bennaf, mae'n hanfodol iddynt deimlo fod Duw wedi eu galw at y gwaith o feithrin yr ifanc. Ond, gall pob eglwys fod yn frwd eu croeso i bobl ifainc gan ddangos eu gwerthfawrogiad ohonynt a'u sicrhau fod iddynt le anrhydeddus yn yr eglwys. Yn sicr, mae yna fuddion o gael pobl ifainc yn frwd a bywiog yno. Yn ôl un person, '*Dydyn nhw ddim yn codi hen grachennau plentynnaidd. Materion o wir bwys sy'n eu corddi, diwinyddiaeth ar ei ben*.'

Mae angen i'r eglwys leol fod yn rhan o eglwys ehangach, lle gall eglwysi eraill y cylch, o bob enwad, rannu yn y genhadaeth a'r weinidogaeth hon ymhlith yr ifanc. Lle mae yna eglwysi lleol eraill yn cynnal yr un nod, dylid eu cefnogi. Nodwyd mewn ambell AWL fod yr eglwysi mwy, gydag adnoddau digonol, yn gwneud hyn, tra bo eglwysi anghydffurfiol, o bosib, mewn AWL arall, yn rhedeg clwb ieuenctid llwyddiannus; byddai elwysi eraill, o ganlyniad, yn medru bwrw mlaen â chenhadu fel arall. Efallai fod gwaith eciwmenaidd yn llai boddhaol rywle arall- '*canlyniadau gweddol'* ys dywedwyd. Mae deall y cyd-destun lleol yn holl-bwysig. A mae cyfle i arweinwyr eglwysig ddangos fod cydweithredu a chydymdrech yn rhan o weledigaeth ehangach.

Mae cyfraniad yr eglwys i fywyd ysgolion cynradd yn dda iawn mewn rhai mannau

Soniodd pobl ifainc am y rhan bwysig a chwaraeai'r eglwys ym mywyd eu hysgol gynradd. Mae yna enghreifftiau pendant lle mae athrawon yn gefnogol, a'r clerigiaid lleol yn ymweld yn gyson i arwain gwasanaethau boreol ac annerch dosbarthiadau. Roedd hi'n bwysig, medd y plant, i sôn am faterion cyfoes, megis yr amgylchedd, er mwyn dangos fod yr eglwys yn effro i bethau. Mae '*bod yn fwy perthnasol i'r ifanc'* yn hanfodol, ond mae angen ei 'dweud hi' fel y mae: '*eglwysi'n defnyddio llawer o daflenni papur – gwastraff enbyd*'. Yn bwysicach fyth, y mae dilysrwydd: '*profiad gwirioneddol ddilys, yn fwy, os rhywbeth na bod yn berthnasol',* - bydd hyn yn denu'r ieuenctid.

Mae yna bethau da yn digwydd ledled yr esgobaeth. Soniodd yr AddGLl fod yna gysylltiadau cryf gydag ysgolion o bob math, drwy wasanaethau boreol, gwaith dosbarth, ymweliadau ag eglwysi, a gwaith cyrff llywodraethol. Diau fod yr ysgol gynradd leol yn ffocws naturiol ar gyfer cenhadu, a'r eglwys yn defnyddio hyn i'r eithaf, a bwrw fod perthynas dda rhwng penaethiaid ac offeiriaid, sy'n ffactor allweddol. Bydd hyn yn llwyddo'n arbennig, o gadw'r maes llafur a materion cyfoes mewn golwg; hefyd y prif wyliau Cristionogol, Nadolig, Pasg, Dyrchafael a Diolchgarwch, a defnyddio'r eglwys/fynwent at ddiben ecolegol, a sôn am ofal Duw dros yr amgylchedd.

Gall yr ysgol hefyd fod yn ffordd o gyrraedd plant a phobl ifainc y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, er enghraifft, mae Llan Llanast yn union wedi cau yr ysgol a'r plant yn croesi'r ffordd, yn taro'n iawn mewn un man, fel gyda chlybiau wedi ysgol a chlybiau gwyliau. Mae datblygu perthynas dda gyda'r ysgol yn hollbwysig, er yn anodd o ran AddGLl sydd â nifer helaeth o ysgolion.

Mae newid arwyddocaol, pan fo plant yn mynd i ysgol uwchradd

Soniodd y bobl ifainc pa mor wahanol yw bod yn rhan o ysgol mwy o faint. Mae bod yn Gristion mewn ysgol uwchradd yn '*lletchwith*'. Teimlir fod y fath label yn dynodi aelodaeth o leiafrif bychan neu grefydd gudd: '*yn fy mlwyddyn i o 200 o blant, dim ond tri neu bedwar sydd yn Gristionogion*', '*tebyg fod yna rai Cristionogion dirgel acw*', '*mae rhai yn ofni arddel y ffaith … fydd hynny ddim yn cŵl o ran y lleill*', '*mae'n anodd cyfaddef i'm mêts mod i'n mynd i'r eglwys, nes mod i'n ddigon hen i beidio 'becso dam'*. Mae'n frwydr weithiau ar y gorau: '*Rwy'n Gristion heb gwato'r ffaith, a mae fy mêts yn trio 'maglu i*'.

Lle disgwylid cefnogaeth, efallai, siom a syndod a gafwyd: '*dyw'r athro AG hyd yn oed ddim yn Gristion*'. Byddai'n fanteisiol, yn ôl pobl ifainc, pe gallai'r eglwys gyfrannu at y gwersi, neu o leiaf fod y clerigiaid neu Gristionogion eraill yn dangos eu hwynebau yn yr ysgol uwchradd. '*Byddai hynny'n wych*', meddai un disgybl. Mae yna ambell arbrawf derbyniol, megis y Bws IESU Byw sy'n galw ar dro. Roedd clybiau galw-mewn, gyda lluniaeth, yn awgrym arall. Ond ar y cyfan, roedd yn well gan rai o'r disgyblion gyfarfod y tu fas i ffiniau'r ysgol.

Mae gwahanol ardaloedd yn esgor ar gyfleoedd gwahanol

Mae deall y gymuned leol, drwy ystadegau swyddogol neu ddulliau eraill, yn allweddol, o ran gwybod sut i genhadu. Clywsom am enghraifft o ddatblygiad-tai newydd yn dwyn teuluoedd ifanc i'r cylch; gall yr eglwys ymateb drwy gynnig gweithgareddau megis grwpiau rhieni a babanod/plant bach, gwasanaethau teulu etc. Mewn man arall, gwelwyd eglwys (nid Anglicanaidd) yn llwyddo i ddenu pobl ifainc, gan brofi fod modd cenhadu mewn sawl ffordd.

Cofier fod gweithio law yn llaw ag asiantaethau eraill, o fewn a thu allan i'r eglwys, yn bwysig. Cymerer Plant Dewi, er enghraifft, partneriaeth ragorol rhwng yr esgobaeth ac awdurdodau lleol, a esgorodd ar 27 prosiect mewn 12 AWL. Cristionogol yw'r tarddiant a dyma sy'n gyrru'r gwaith yn ei flaen o ddydd i ddydd, er na ŵyr pob eglwys am fanylion y prosiecatu. Roedd bron pob eglwys a ymatebodd i'r arolwg yn hysbysebu Plant Dewi drwy bosteri a thaflenni, ac yn cyfrannu at y gwaith yn ariannol. Hefyd roedd tua thraean ohonynt â gwirfoddolwyr Plant Dewi yn eu rhengoedd,

neu yn cynnig lle ar gyfer y gweithgareddau. Pan fo gwaith Plant Dewi yn hysbys i eglwysi lleol, deuant yn fwy ymwybodol o anghenion eu cymunedau, ac yn barotach i weithredu.

Mae gweithio law yn llaw ag eraill yn hollbwysig, a gellir cyflawni cymaint mwy, o wneud felly, e.e. mae gwybod sut a phryd i gyfeirio pobl at fanciau bwyd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol neu gymorth i fenywod, yn rhan allweddol o genhadaeth a gweinidogaeth i blant, ieuenctid a theuluoedd ifainc. Soniwyd am waith ieuenctid gwych yr awdurdod lleol, yn arbennig drwy raglenni chwaraeon/iechyd. Mae ein gofal fel eglwys am y person cyfan, gan gydnabod eraill sy'n weithgar yn y maes, er mai iechyd ysbrydol o bosib yw ein prif ffocws.

Mae deall bywydau unigol pobl a theuluoedd, hefyd yn bwysig: '*Os yw pobl yn byw bywydau prysur, a ellir gofyn iddynt ddod i gyfarfod arall?*' '*Sut y gall yr eglwys gystadlu â chwaraeon Sul, neu ofyn am sylw ynghanol bywydau o fynd cyson?*' '*Os yw pobl ifainc yn byw mewn ardal anghysbell, sut mae eu tynnu nhw i fewn*?' Awgrymwyd mewn un ardal fod iechyd meddwl yn bwnc perthnasol o ran pobl ifainc, ac yn rhywbeth i'w bwysleisio yng nghyd-destun cenhadu.

Sylweddolwn, er cydnabod y sefyllfa, fod yna un nodwedd o'r esgobaeth na allwn wneud sylw penodol amdano, sef natur ddwyieithog amryw gymunedau. Mae rhai o'r rheiny a brofodd alwedigaeth i weinidogaethu, wrthi yn dysgu Cymraeg er mwyn medru ymdoddi i'r gymuned leol, tra bod eraill yn teimlo nad yw'n flaenoriaeth o ran eu gwaith, yn dibynnu ar ble yn union y maent yn gweithredu. Chawson ni fawr o gyswllt yn ystod yr arolwg, â siaradwyr Cymraeg cynhenid, er fod cyfle i gwblhau'r arolwg drwy gyfrwng yr iaith. Bydd yna bobl ifainc â'r Gymraeg yn iaith a chyfrwng cenhadu iddynt. Clywsom am un ysgol yr ymwelid â hi yn gyson gan weinidog y capel Cymraeg lleol, a bodlon fuwyd, i bob golwg, i'r trefniant hwn barhau.

Dylanwad cyfnodau clo diweddar

Ceisiodd yr arolwg hwn benderfynu sut y buwyd yn ymwneud â phlant, ieuenctid a theuluoedd ifainc cyn y pandemig, ond sylweddolwn y bu effeithiau dybryd o ganlyniad i'r cyfnodau clo yn ystod y deunaw mis diwethaf. Mae yna ymdeimlad sicr na welir adfer amodau bywyd yn llwyr, boed hynny'n bosib neu beidio. Gwnaed sawl sylw ynghylch gwedd negyddol y cloeon mawr: eglwysi'n cau, grwpiau yn methu cyfarfod, mynediad i ysgolion wedi ei gyfyngu. Roedd yna sylwadau cadarnhaol hefyd, megis sefydlu gwasanaethau arlinell er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a'r rheiny nas cyffyrddwyd ers blynyddoedd. Ymddengys fod awydd ar y mwyafrif i barhau â'r sgiliau newydd a ddysgwyd e.e.cynnal addoliad a chyfarfodydd, mwyach, mewn dull deublyg – ar y wê ac yn y cnawd. Bu'r pandemig yn gyfle i ystyried blaenoriaethau, ac i bwyso a mesur, wrth i ni ail-gydio yn yr awenau, sut i yrru yn ein blaenau.

'Dim rhagor o "syniadau mawr" diolch!'

Gwnaed amal sylw am natur 'gylchol' yr ymholiad parthed cenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn yr esgobaeth, a bod yna doreth boenus o gynlluniau a syniadau yn cael eu hawgrymu gan wybodusion ond heb gael eu gweithredu'n gyflawn. Awgrymwn mai syniadau lleol yn codi o ofynion lleol, sydd orau bob tro, wedi eu cynllunio a'u trefnu gan bobl yn deall y cyd-destun lleol. Mae cydweithio rhwng eglwysi mewn AWL yn ffordd sicr ymlaen, gan rannu adnoddau fel y soniwyd eisoes. Mae gan yr esgobaeth gyfrifoldeb i hybu'r mentrau lleol hyn, gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth, a chydnabod ffyrdd amrywiol o genhadu a gweinidogaethu, nid yn unig oddifewn i AWL ond rhwng y naill AWL a'r llall.

‘Boed i ni fod yn barod i newid’

Mae yna ddwy elfen bwysig i genhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc: mae’n rhan o’n galwedigaeth wrth i ni estyn allan at y gymuned gyfan, a mae’n debyg o olygu newid, gan nad yw’r hyn sy’n digwydd nawr mewn sawl man, yn taro deuddeg. ‘Amen’ medd mwyafrif y bobl a gyfwelwyd yn yr arolwg. Mae newid yn peri ofn, ofn colli’r cyfarwydd, ofn estyn at yr ifanc a’u gwahodd i fod yn rhan o’r fenter. Gellir deall ofn newid, ond lleddfir hyn, o bwyso ar Ysbryd Duw, sy’n ein harwain i leoedd newydd a mentrau newydd. Yng ngeiriau un person, ‘*O gael eich arwain gan yr Ysbryd, bydd y drysau’n agor ac fe ddigwydd gwyrthiau!*’

Canfyddiadau blaenorol

Comisiynwyd adroddiad gan yr esgobaeth yn 2012 dan y pennawd ‘*Ble mae’r plant?*’, ac fe’i lluniwyd gan Naomi Wood a Marianne Osborne[18]. Roedd yna fwy o fanylion yn hwnnw ynglŷn ag eglwysi unigol nag a fedrem ninnau eu casglu, a rhydd arolwg pwysig o’r sefyllfa ar y pryd. Casgliad yr adroddiad yw fod ‘*y canlyniadau’n syndod, yn siomedig a chalonogol ar yr un pryd*’, a bod yna ymwneud amrywiol iawn ledled yr esgobaeth, gan gynnwys sawl eglwys heb unrhyw gyswllt â phobl ifainc.

Rhaid nodi dirywiad yn y sefyllfa yn ystod y deng mlynedd dilynol, yn enwedig o ran niferoedd plant mewn ysgolion Sul, er, megis cynt, fod yna amrywiaeth profiad ledled yr esgobaeth. Doedd yna fawr o gyswllt â phobl ifainc dros 11 oed, yn ôl adroddiad 2012, a’r un peth yw’r sefyllfa heddiw. Cytunwn â datganiadau olaf yr adroddiad, gan awgrymu fod y galw’n ddwysach nawr nag yr oedd bryd hynny: ‘*Onid awn i’r afael â’r sefyllfa ar fyrder, gan ddwyn mwy o blant a’u teuluoedd i deulu’r eglwys a’u helpu i ddatblygu perthynas bersonol â Iesu y foment hon, rhaid gofyn am ba hyd y gall yr eglwys oroesi yn ei ffurf bresennol*.’

[18] Naomi Wood & Marianne Osborne, *Ble mae’r plant?* Adroddiad ar arolwg Esgobaeth Tyddewi, 2012

Ffyrdd ymlaen

Heriau

Nid yw hyn yn flaenoriaeth o ran cenhadu, ym marn rhai pobl

O ystyried yr AddGLl a wnaeth ymateb i'r arolwg, credai'r mwyafrif llethol fod cenhadu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn *'hollbwysig'*. Er hyn, ni chafwyd ymateb gan tua thraean o'r AddGLl, er atgoffa ac annog y cyfryw rai. Gall fod amryw resymau am hyn e.e. materion cyfathrebu a staffio, ond teg dyfalu nad yw targedu'r ieuenctid yn flaenoriaeth mewn ambell eglwys neu AWL. Pam tybed? Er na chafwyd ymateb i'r cwestiwn, efallai mai'r esgobaeth fyddai'n medru dweud. Teimlir, o bosib, fod materion eraill yn hawlio mwy o sylw mewn rhai eglwysi lleol.

Diffyg pobl ifainc mewn nifer o eglwysi

Mae'n hysbys fod cenhadaeth ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc yn rhagori lle bo'r cyfryw rai yn rhan o'r gynulleidfa. Yn sicr, bydd yn fodd i ddenu pobl i'r eglwysi hynny. Dangosodd rhai o'r bobl ifainc a holwyd ymroddiad cadarn i'w heglwys, er gwaetha'r ffaith, o bosib, nad oedd yna rai tebyg i hwy yno. Eithriad yw'r rheiny, gan fod y mwyafrif, fe ymddengys, yn mynd gyda'r llif. Mae'n bwysig cefnogi'r bobl ifainc sydd eisoes mewn eglwysi, drwy rwydweithiau a chymdeithasau, yn enwedig rai sydd o'r neilltu. Maent werth y byd.

Diffyg gweithwyr

Breuddwyd gwrach yw gobeithio am weithiwr ieuenctid cyflogedig, o ran mwyafrif yr AddGLl, er y bu cryn lwyddiant lle bu hyn yn bosib, prinder cyllid neu beidio. Rhaid dibynnu ar wirfoddolwyr, gan amlaf, o ddiffyg adnoddau ariannol, ond prin yw'r fath bobl yn ein HaddGLl ar y cyfan. '*Mae digon o gyfleoedd, ond ychydig iawn o fodd*', meddai un ohonynt. Galwedigaeth, medd eraill, yw gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc, a rhaid i'r eglwys feithrin, hyfforddi a chefnogi'r gwaith, fel gyda phob gweinidogaeth. Teg derbyn fod Duw yn galw pobl i'r gwaith hwn, a rhaid wrth ymateb priodol gan yr eglwys.

Atyniadau eraill

Bu'r eglwys yn gorfod cystadlu ag atyniadau eraill erioed, ac efallai fod yr her yn fwy yn yr oes hon nag y bu ar adegau eraill yn ei hanes. Un enghraifft amlwg yw chwaraeon y Sul. Efallai fod parodrwydd i fod yn hyblyg o ran amseriad a lleoliad digwyddiadau – eu cynnal yn ystod yr wythnos yn hytrach nag ar fore Sul – yn ateb. Yn wir, nododd sawl eglwys fod hyn yn llwyddiant. Mae amharodrwydd i newid yn dwysau'r gystadleuaeth ac yn profi nad yw rhai eglwysi'n fodlon addasu er mwyn gwasanaethu eu cymunedau.

Adeiladau anaddas

Derbyniwyd rhai sylwadau ynglŷn ag adeiladau heb gyfleusterau sylfaenol, neu a oedd yn anaddas o ran ateb gofynion cenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc. Diwedd y gân yw'r geiniog, yn yr achosion hyn gwaetha'r modd, ond efallai fod defnyddio lleoliadau eraill a rhannu adnoddau yn ateb i'r broblem, i raddau.

Arwyddion gobaith

Drwy ein hymchwil, canfuwyd enghreifftiau o ymarfer da yn y gwaith o genhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc. Dyw'r rhestr yn sicr ddim yn cynnwys popeth; diau fod yna sawl enghraifft arall na ddaeth i'n sylw wrth ymchwilio, ond hoffem gymeradwyo'r canlynol:

Mae cadw'r gweithredu'n syml yn bwysig, gan redeg ond un grŵp sy'n gynaladwy, yn hytrach na sawl un arwynebol (AWL Aberystwyth).

Mae cydlynu pobl ifainc, o ran cyd-gefnogi, yn allweddol bwysig, fel yng Nghyd-gymdeithas Ieuenctid Sir Benfro, a fu'n dwyn Cristionogion ifainc ynghyd o wahanol eglwysi (cyn COVID-19); fe allai rhai o'r rheiny fod wedi teimlo'n bur ynysig, fel arall.

Mae Canolfan Genhadu Cross Hands wedi bod wrthi'n cenhadu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan sefydlu grwpiau cefnogi ar gyfer pobl ifainc anghenus. Bwriedir agor caffi fel man cyfarfod ar gyfer pobl ifainc a'r gymuned. Gobeithir hefyd y bydd yn lle y gall gwirfoddolwyr fagu sgiliau newydd a chyfrannu at eu cymuned.

Mae eglwysi'n elwa o rannu eu hadnoddau ar gyfer cydweithio. Yn AWL Daugleddau, mae eglwysi, lle mae yna bobl ifainc, yn arwain y gwaith ieuenctid ledled yr AWL, gan wahodd ieuenctid yr eglwysi llai i gyd-gyfranogi.

Sylweddolodd Plant Dewi fod gweithredu ar y cyd â rhieni yn esgor ar brosiectau sy'n debycach o fod yn llwyddiannus a chynaladwy. Pan fo rhieni'n teimlo'n angerddol ynghylch rhywbeth sy'n rhan bwysig o'r darlun, fe fwriant ati'n ddiymdroi, e.e. prosiect gerddi'r tadau yn Noc Penfro, sy'n amcanu cefnogi ac annog y berthynas rhwng tadau a phlant.

Mae darganfod ffyrdd creadigol o gysylltu â phobl ifainc yn allweddol, yn arbennig ar adeg megis COVID-19 a'r cyfyngiadau anochel; roedd sefydlu tudalen Instagram yn gwahodd pobl i ddangos lluniau o ambell gipolwg ar Dduw yn y byd naturiol, yn nodedig - @God.beyond.the.pews (AWL Bro Sancler).

Gwelwyd sefydlu grŵp yn null Llan Llanast yn ystod yr wythnos, yn cyfarfod yn union wedi'r ysgol, gan mai bryd hynny y gall rhieni a phlant fynychu. Croesi'r ffordd o'r ysgol i'r eglwys yw'r drefn (AWL Bro Caerfyrddin).

Yn ystod y cyfnodau clo yn AWL y Rhŵs, sefydlwyd Llan Lleidiog, fel ffordd o gadw cyswllt â phobl mewn cyfnod anodd, drwy ddeunydd ar y cyfryngau cymdeithasol fyddai'n eu hysgogi i fynd allan a gweld Duw ym myd natur.

Bu dangos diddordeb pendant mewn materion sy'n bwysig i bobl ifainc, e.e. yr amgylchedd, yn dwyn ffrwyth. Mae dod yn Eglwys Eco ardystiedig wedi cyffroi plant a mae hyn yn aml yn cyd-glymu â phrosiectau a phynciau a astudir yn yr ysgol (AWL Bro Caerfyrddin).

Sefydlodd Canolfan Genhadu yn Cross Hands rywbeth o'r enw 'Sunday Thing', math newydd o eglwys lle gall teuluoedd cyfan ddod, gan ymlacio yn gwbl naturiol - cyfarfod pobl yn eu dillad gwaith, fel petai, gan greu lle diogel lle y gall pobl archwilio cwestiwn ffydd, yw'r nôd.

Gwelwyd sefydlu grŵp mam a'i phlentyn gan yr eglwys leol, â chysylltiadau i gymdeithasau ac asiantaethau eraill, megis banciau bwyd, ymwelwyr iechyd a therapyddion lleferydd ac iaith. Mae hyn yn fodd i rieni allu cael help a chefnogaeth barod, nad oedd mor gyfleus oherwydd y pandemig; hefyd, credir fod iechyd meddwl mamau yn elwa o'r herwydd. Mae cenhadaeth yn cwmpasu sawl agwedd ar fywyd (AWL Aberystwyth).

Meysydd gweithredu posib

1. **Angen i'r eglwys fod yn ymwybodol o bobl ifainc sy'n brin o gyfleoedd.** Nodi'r ardaloedd lle mae pobl ifainc difantais yn byw, ac estyn cefnogaeth er ychwanegu at eu profiad, a hybu eu gobeithion. Mae a wnelo cenhadaeth â galluogi pobl i fyw bywydau cyflawn, a mae modd pendant i geisio cyffwrdd â'r rheiny a welodd eu posibiliadau yn cilio. Mae'r cyfryw bobl ifainc yn llai tebygol o fod yn rhan o'r eglwys, felly mwya i gyd yr angen ymgysylltu â hwynt.

2. **Rhannu ymarfer da ledled yr esgobaeth am waith trawiadol mewn ysgolion cynradd.** Parhau i ddathlu a nodi enghreifftiau arbennig o'r fath weinidogaeth, gan gydlynu gwaith pawb yn yr AddGLl sy'n ei gyflawni, gan rannu syniadau ac ymarfer da. Mae ysgol yn elfen allweddol o fywydau mwyafrif pobl ifainc, a rhaid felly pwysleisio'r genhadaeth honno. Rhaid manteisio ar unrhyw newidiadau o ran y maes llafur sy'n gwahodd mwy o ymwneud ag eglwysi lleol.

3. **Hybu'r syniad o roi lle amlwg i bobl ifainc yn yr eglwys.** Mae hyn yn cynnwys yr addoliad yn gyffredinol (nid yn unig wasanaethau teuluol), hefyd y gweithgareddau eraill megis llywodraethiant a gweinyddiaeth yr eglwysi, pan fyddai modd. Mae pobl ifainc sydd wedi eu bedyddio yn gyflawn aelodau, a mae angen eu hannog a'u cefnogi i fod yn rhan o'r gwaith; pan ddigwydd hynny, mae'n dynodi eglwys leol iach, ar ei phrifiant. Mae angen clywed llais yr ieuenctid mewn eglwysi; mae eu barn yn allweddol, pan drafodir materion cyfoes megis ecoleg, amrywioldeb a chynhwysedd, iechyd meddwl a chyfleoedd gwaith. Rhaid dygnu arni i gofleidio'r ifanc er mwyn iddynt deimlo fod iddynt ran allweddol yn yr eglwys, a bod y lle hwnnw'n pontio'r cenedlaethau mewn gwirionedd.

4. **Rhaid i'r eglwys fuddsoddi mewn caplaniaeth, gan estyn at bobl ifanc o'r 12 oed i fyny.** Mae hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi Cristionogion ifainc mewn ysgolion uwchradd a cholegau – onid yw'r arddegau'n bwysig?! Dyma pryd y profir eu ffydd, yn wyneb dylanwad cyfoedion, ac felly mae perthyn i rwydwaith o Gristionogion yn hanfodol. Tebyg mai y tu fas i furiau'r ysgol/coleg y digwydd hyn, a hynny o ddewis.

5. **Ystyrier dyddiau hyfforddi a dwyn gweithwyr ieuenctid at ei gilydd er mwyn ceisio ysgogi eraill i gymryd at y gwaith.** Gall yr esgobaeth, drwy'r AddGLl wneud hyn er hybu diddordeb a pharatoi pobl gymwys. Tybed a fu arafwch yr eglwys i gymell pobl, yn factor yn y diffyg gwirfoddolwyr? Gall mentora da a rhannu ymarfer da ddwyn ffrwyth, o ran mentrau lleol.

6. **Dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol.** Mae yna amrywiaeth o gymunedau yn yr esgobaeth, ac ni fyddai un ymdrech benodedig o ran cenhadu a gweinidogaeth ymhlith yr ieuenctid, yn taro deuddeg ymhob cylch. Rhaid yw i'r eglwys leol sylweddoli beth sydd ei angen ar y gymuned, a hynny ar sail profiad pobl a thystiolaeth ystadegol. Felly y synhwyrir y dull priodol o genhadu, e.e. os oes nifer o deuluoedd ifainc, gallai grŵp rhiant a phlentyn, neu Lan Llanast, fod yn addas; os yw pobl ifainc yn teimlo'n unig neu'n ynysig, ceisio eu dwyn at eu gilydd, yn y cnawd neu yn rhithiol, fyddai'r ateb. Gwaith yr esgobaeth yw trafod a gwyntyllu syniadau, ond gan bwysleisio'r lleol yn gyson.

7. **Cynllunio'n hir-dymor, yn hytrach na chwilio atebion arwynebol, dros dro.** Ariannu am gyfnodau byr yw'r drefn yn yr esgobaeth, fe ymddengys. Tasg dros amser yw ennyn hyder

y gymuned leol, nid rhywbeth a wneir mewn chwinciad. O fuddsoddi mewn plant, ieuenctid a theuluoedd ifanc, sôn am genhedlaeth gyfan a wneir a sicrwydd sail ariannol cadarn, ynghyd â gweithwyr abl a chwbl ymroddedig.

8. **Sicrhau partneriaid.** Mae yna amryw enghreifftiau o eglwysi'n ymlafnio i genhadu pan fo'r adnoddau'n brin. O gydweithio - yn gydenwadol hyd yn oed – gellir gwneud rhyfeddodau. Pan fod eglwys arall yn y cylch yn cenhadu ymhlith teuluoedd ifainc, yna mae cyfle i dargedu'r 'arddegau' yn ogystal. Os yw'r awdurdod lleol yn gweithredu dros ieuenctid, gall yr eglwys leol, fel atodiad, bwysleisio'r wedd ysbrydol. Cydlynu yw'r gyfrinach o bosib, a hynny ar draws AddGLl a'r enwadau, er mwyn elwa ar ffynonellau cyllid, gwirfoddolwyr a chyfleusterau a fydd yn hwb i'r cenhadu.

9. **Cydlynu dwysach rhwng yr AddGLl a Plant Dewi**. Er fod Plant Dewi yn gweithredu drwy 27 prosiect, nid yw'r rheiny'n digwydd ond mewn 12 AWL, a byddai ychwaneg o eglwysi ar eu helw o wybod mwy am y cyfryw brosiectau. Oes yna fodd i'r esgobaeth annog gwell cyswllt yn yr AddGLl hynny lle nad yw Plant Dewi yn rhyw hysbys iawn? Diau y gellid gwneud hyn, e.e. pennu eglwys fel man cyswllt neu ganolfan ddosbarthu. Bydd hyn yn rhoi pwyslais ychwanegol ar bwysigrwydd gwasanaeth Cristionogol yn y gymuned. Bydd 20^{fed} penblwydd Plant Dewi yn 2022 yn gyfle ardderchog i ddatblygu syniadau o'r fath.

10. **Dylid ail-bwysleisio fod cenhadu a gweinidogaethu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc, yn rhan ganolog o weledigaeth yr esgobaeth.** Da o beth fod yr esgobaeth yn cydnabod pwysigrwydd y genhadaeth hon. Mae yna waith clodwiw eisoes yn digwydd; mae angen dathlu hyn, a'i gyhoeddi o bennau'r tai, megis, gan fod yma wireddu ymarferol y weledigaeth esgobaethol. Er hyn, nid mater o ddiogelu'r sefydliad neu achub eglwysi lleol yw cenhadu ymhlith plant, ieuenctid a theuluoedd ifainc, ond yn hytrach cyrraedd cenhedlaeth gyfan a ymddieithriodd oddiwrth yr eglwys, ac oddiwrth y profiad o gariad Duw. Dyletswydd yr eglwys yw bwrw i'r dasg o'u cyflwyno i Iesu.

Diweddglo

Dymunwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn. Gwerthfawrogwn anogaeth ac arweiniad yr Hyb Mones Farah o'r cychwyn cyntaf, ynghyd ag aelodau pwyllgor PPI yr esgobaeth, ac eraill sy'n diddori yn y genhadaeth hon. Gan fod cyfrinachedd yn hanfodol, o ran ymateb pobl i'r arolwg, ni ellir cynnwys rhestr cyfranwyr. Ond ni fuasai'r ymchwil yn bosib heb ymateb unigolion sy'n gweithio mewn AddGLl, gyda Plant Dewi a Canolfannau Cenhadu Church Army ac Esgobaeth Tyddewi, a'u hymateb i'r arolwg, cyfweliadau ac ambell gyflwyniad ysgrifenedig arall. Yn bennaf, diolch i'r bobl ifainc hynny a fedrodd gymryd rhan gan sôn am eu byw a'u bod yn yr esgobaeth, ac yn arbennig am eu profiadau fel disgyblion ifainc Iesu. Dengys eu profiad hwy, i raddau helaeth, pa mor effeithiol (neu fel arall) yw ein hymdrechion ni i geisio rhannu cariad Duw yn y byd. Yng ngeiriau un cyfrannwr:

'Dylai'r eglwys fod yn lle i bob oed, a mae'r Efengyl yno ar eu cyfer, bawb ohonynt.'

Elspeth McGann a John Tomlinson, Uned Ymchwil Church Army
Tachwedd 2021

Atodiad

Plant (dan 18) sy'n gyfran o'r eglwys ar y Sul, ar gyfartaledd[19]

	2018
Pob AWL	13.94%
Aberystwyth	16.3%
Bro Aeron Mydr	34.7%
Bro Aman	5.1%
Bro Caerfyrddin	25.3%
Bro Cydweli	21.4%
Bro Dinefwr[20]	12.0%
Bro Dyfri	11.2%
Bro Gwendraeth	6.8%
Bro Lliedi	9.7%
Bro Padarn	16.2%
Bro Sancler	8.3%
Bro Teifi	10.4%
Bro Wyre	9.4%
Daugleddau	11.5%
Dyffryn Teifi	15.3%
Dwyrain Landsker	9.7%
Glyn Aeron (Arfordirol)	11.9%
Gorllewin Cemaes	23.6%
Pebeidiog Fwyaf	9.8%
Llanbedr Pont Steffan	6.9%
Arberth & Dinbych y Pysgod	9.4%
Y Rhŵs	17.4%
De Orllewin Sir Benfro	16.6%
Y Gadeirlan	dim data

[19] Ffigyrau mynychwyr yr eglwys – cafwyd gan yr Eglwys yng Nghymru

[20] Rhestrwyd AddGLl Grwpiau Bro Dinefwr a Llandeilo fel un (fel yr oeddynt pan gasglwyd y data)

Plant (dan 18) sy'n gyfran o boblogaeth gyffredinol yr ardal[21]

2019	Cyfanswm y nifer pobl	Amcangyfrif nifer rhai 0-17 oed	Amcangyfrif 0-17 fel % y boblogaeth gyfan
Pob AWL	392473	75203	19.2%
Aberystwyth	12795	2542	19.9%
Bro Aeron Mydr	5321	1000	18.8%
Bro Aman	28888	5786	20.0%
Bro Caerfyrddin	22021	4545	20.6%
Bro Cydweli	9213	1585	17.2%
Bro Dinefwr[22]	7152	1229	17.2%
Bro Dyfri	8518	1355	15.9%
Bro Gwendraeth	43785	8379	19.1%
Bro Lliedi	47843	10450	21.8%
Bro Padarn	15503	2996	19.3%
Bro Sancler	9101	1550	17.0%
Bro Teifi	16468	2913	17.7%
Bro Wyre	5125	897	17.5%
Daugleddau	21119	4434	21.0%
Dyffryn Teifi	13728	2403	17.5%
Dwyrain Landsker	11217	2016	18.0%
Glyn Aeron (Arfordirol)	7734	1116	14.4%
Gorllewin Cemaes	12033	2165	18.0%
Pebeidiog Fwyaf	5747	916	15.9%
Llanbedr Pont Steffan	13668	2570	18.8%
Arberth & Dinbych y Pysgod	21599	3547	16.4%
Y Rhŵs	29405	5982	20.3%
De Orllewin Sir Benfro	22718	4563	20.1%
Y Gadeirlan	1772	266	15.0%

[21] Crewyd dangosfyrddau pob AWL gan Brendan Research; rhoddwyd caniatâd gan yr Eglwys yng Nghymru
[22] Rhestrwyd AddGLl Grwpiau Bro Dinefwr a Llandeilo fel un (fel yr oeddynt pan gasglwyd y data)